Yr Adran Gofal Cymdeithasol a Thai

A ydych yn Fyddar neu â Nam ar eich clyw

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

Os hoffech gael y wybodaeth hon ar ffurf casét, mewn Braille, neu brint bras

☎01267 228925

Mae gwybodaeth am wasanaethau Cyngor Sir Caerfyrddin ar gael ar wefan y Cyngor: www.sirgar.gov.uk

SCH10/25/07/b

Mae ’na ystod o wasanaethau ar gael yn Sir Gaerfyrddin i helpu’r rheiny sydd â nam ar y clyw i fod mor annibynnol â phosibl ac i gadw cymaint o reolaeth ar eu bywyd ag y bo modd.

Yn y daflen hon ceir gwybodaeth am y gwasanaethau hyn a sut i gael rhagor o wybodaeth amdanynt.

Beth yw Nam ar y Synhwyrau?

Defnyddir y term Nam ar y Synhwyrau i ddisgrifio anableddau megis:

- **Byddar/nam ar y clyw**
- **Dall/nam ar y golwg**
- **Byddar a dall (nam ar ddau o’r synhwyrau)**

Os ydych yn fyddar neu â nam ar y clyw mae’n bosibl eich bod yn cael anawsterau rhwystredig gartref.

Mae angen troi sain y teledu’n rhy uchel efallai, neu mae’n bosibl eich bod yn cael trafferth i glywed y ffôn neu gloch y drws yn canu.

Mae’n bosibl eich bod yn cael anhawster i glywed beth mae rhywun yn ei ddweud ar y ffôn neu efallai bod anawsterau ymarferol eraill yn deillio o broblemau sy’n gysylltiedig â’ch clyw.

Os oes unrhyw un o'r sefyllfaoedd hyn yn berthnasol i chi neu'ch teulu, mae'n bosibl y gall yr Adran Gofal Cymdeithasol a Thai fod o gymorth.

Os ydych yn hollol fyddar mae'n bosibl y bydd galwedydd sy'n dirgrynu neu olau sy'n fflachio'n diwallu'ch anghenion yn well. Gall offer o'r math hwn dynnu'ch sylw os bydd rhywun wrth y drws neu os bydd y ffôn yn canu. Mae'n bosibl hefyd gysylltu systemau o'r math hwn â'ch larwm mwg presennol.

Os ydych yn cael trafferth i fanteisio ar wasanaethau oherwydd nam ar y clyw mae gennym staff hyfforddedig a all gynnig cymorth i chi. Os bydd angen, gallwn eich cynorthwyo i drefnu bod Cyfieithydd Iaith Arwyddion, Llefarydd, neu gymorth arall o ran cyfathrebu ar gael mewn unrhyw apwyntiadau pwysig sydd gennych.

Mae gwasanaeth gwaith cymdeithasol drwy gyfrwng iaith arwyddion ar gael yn ogystal.

Gallwn roi cyngor i chi ynghylch budd-daliadau a sut I wneud cais amdanynt.

Yn ogystal, gallwn ddarparu gwybodaeth i chi am y gwahanol glybiau sydd ar gael yn eich ardal ar gyfer Pobl Fyddar, Pobl sy'n Drwm eu Clyw a Phobl Fyddar a Dall, ac am ddosbarthiadau darllen gwerfusau. Efallai y byddwn yn gallu darparu cludiant ar eich cyfer.

Os ydych yn fyddar ac yn ddall, gallwn roi cyngor i chi ar y gwasanaethau, boed yn genedlaethol neu'n lleol sydd ar gael i chi.

Sut gallaf gysylltu â chi?

Gellwch gysylltu â swyddogion yn y Swyddfeydd Gofal Cymdeithasol canlynol:

Maes Cambria
Caerfyrddin
☎: 01267-224421

Adeiladau'r Cyngor
Heol Cilgant
Llandeilo
☎: 01558-825371

3 Rhodfa'r Goron
Llanelli
☎: 01554-775713
Minicom: 01554-775713

Sefydliadau eraill a all fod o gymorth:

Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain Cymru	**02920302216**
Grŵp Sir Gaerfyrddin a'r Ardal	**01267 235503**
Deafblind UK	**0800 132320**
Clwb Pobl Fyddar Llanelli (ffacs neu minicom)	**01554 833720**
Clwb Pobl Drwm eu Clyw	**01554 770770**
RNID (Cymdeithas Genedlaethol Frenhinol i Bobl Byddar) Cymru	**02920333034**
Sense Cymru	**02920457641**
Cyngor Cymru i'r Byddar	**01443 485687**